# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Y Diweddaraf ar Dwf Gwyrdd

## Cefndir

1. Cyflwynwyd papur ar dwf gwyrdd a'r potensial ar gyfer datblygu economi Cymru yn ei chyfanrwydd ei gyflwyno i Gyngor Adnewyddu'r Economi ym mis Mehefin 2013.

2. Fel cam dilynol sefydlwyd Grŵp Llywio Twf Gwyrdd, a gaiff ei gyd-gadeirio gan Peter Davies a'r Athro Garel Rhys. Rôl y Grŵp Llywio yw rhoi arweinyddiaeth a llywio Astudiaeth Sylfaenol o Dwf Gwyrdd i bennu sut y gellir mabwysiadu dull twf gwyrdd ar gyfer twf cynaliadwy a ffyniant hirdymor Cymru.

3. Comisiynodd y Grŵp Llywio astudiaeth i sefydlu dealltwriaeth sylfaenol am arfer gorau rhyngwladol o ran Twf Gwyrdd.

4. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn cael eu lansio ar 9 Chwefror ym Mharc Cathays. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cynnal Cymru Sustain Wales. Gwahoddir aelodau'r Cyngor i fod yn bresennol yn y lansiad.

5. Bydd yr astudiaeth yn goleuo Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Nodau a'r dangosyddion cenedlaethol o gynnydd sy'n cael eu datblygu.

## Diffiniad Arfaethedig o Dwf Gwyrdd

6. Cymerodd yr astudiaeth ddiffiniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar gyfer twf gwyrdd ac mae'n cynnig ei ehangu i gynnwys elfennau cymdeithasol ac addysgol gan gwmpasu agenda bolisi Llywodraeth Cymru:

   "Mae a wnelo twf gwyrdd yng Nghymru â meithrin twf economaidd, datblygiad a chynhwysiant cymdeithasol tra'n sicrhau bod yr asedau naturiol yn darparu'r adnoddau a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddo ysgogi buddsoddi ac arloesi a fydd yn ategu twf parhaus ac yn arwain at gyfleoedd economaidd newydd, ffurfio cyfalaf dynol a meithrin sgiliau, ac yn ailddosbarthu enillion twf".

## Cyfleoedd a Adnabuwyd gan yr Astudiaeth i Hybu Twf Gwyrdd yng Nghymru

7. Adnabu'r astudiaeth naw maes lle mae angen gweithredu i hybu'r dull twf gwyrdd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

   1 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

   2 Cyllid Ymchwil Horizon 2020

   3 Tariff Cyflenwi Trydan y DU

   4 Datblygu Adnoddau Ynni Glân

   5 Gwastraff ac Economi Gylchol

   6 Sefydlu Cynllun Cymell Ôl-osod Cyfarpar Arbed Ynni Mewn Adeiladau i Gymru

   7 Mentrau i Sicrhau Bod Mwy o Gyfalaf Ariannol yn Cael Ei Hawlio

   8 Dull Mwy Penodol o Fesur Cwmnïau a Chynhyrchion

   9 Nodi Marchnadoedd ar gyfer Cynnyrch Cymreig Cynaliadwy Ardystiedig

## Cynnydd a Chamau Gweithredu Pellach

8. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal Cynhadledd Ryngwladol ar Dwf Gwyrdd ym mis Medi 2015. Nod y gynhadledd fyddai dwyn ynghyd arweinwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a chymdeithas sifil i ddangos sut y gall economïau llai achub y blaen ac arwain trawsnewid economaidd.

9. Bydd manylion pellach a diweddariad ar gynnydd yn cael eu darparu ar gyfer y Cyngor wrth i faterion ddatblygu.